# CYFARFOD PENDERFYNIADAU AELOD O'R BWRDD GWEITHREDOL DROS ADDYSG A PHLANT

## 13 CHWEFROR 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd G.O. Jones [Yr Aelod o’r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant]

**Roedd y swyddogion canlynol yn bresennol:**
J. Owen, Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd

**Ystafell 72A, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 - 10.10 am**

**1. DATGANIADAU O FUDDIANT**

Ni chafwyd dim datganiadau o fuddiant.

**2. PENODI LLYWODRAETHWYR AWDURDOD LLEOL**

Bu'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried y ceisiadau oedd wedi dod i law am y lleoedd gwag i Lywodraethwyr Awdurdod Lleol yn y sir. Nodwyd bod gwahoddiad i gyflwyno enwebiadau wedi ei roi i Gadeirydd y Llywodraethwyr, i'r Pennaeth ac i'r Aelod(au) Lleol yn achos Ysgolion Cynradd. Hefyd dywedwyd bod Llywodraethwyr ALl yn cael eu penodi am 4 blynedd ac, os oedd y lle'n wag oherwydd bod cyfnod yr unigolyn yn y swydd yn dod i ben, bod nodyn ynghylch hynny yn y manylion am yr unigolyn os oedd am gael ei ailbenodi.

**PENDERFYNWYD, ar ôl ystyried y ceisiadau a ddaethai i law, benodi'r canlynol yn Llywodraethwyr ALl er mwyn cyflawni'r rhwymedigaethau statudol i lenwi lleoedd gwag ar Gyrff Llywodraethu:-**

| Ysgol Gynradd | Penodiad(au) |
|---|---|
| **Dewi Sant**<br>(2 le gwag - 2 enwebiad) | Dr B. Clement<br>Mr G. Nicholas |
| **Yr ysgol newydd yn lle Ysgol Fabanod Llangennech ac Ysgol Iau Llangennech**<br>(3 lle gwag - 3 enwebiad) | Y Cynghorydd Gwyn Hopkins<br>Y Cynghorydd Gwyneth Thomas<br>Mr T. Davies |
| **Pontyberem**<br>(2 le gwag - 1 enwebiad) | Mrs M. Thomas |

**3. LLOFNODI BOD COFNOD PENDERFYNIADAU'R CYFARFOD OEDD WEDI'I GYNNAL AR 26AIN IONAWR 2017**

**PENDERFYNWYD llofnodi bod cofnod penderfyniadau'r cyfarfod ar y cyd oedd wedi'i gynnal ar 26 Ionawr 2017 yn gofnod cywir.**

**AELOD O’R BWRDD GWEITHREDOL** ________________ **DYDDIAD** ________________